

Annwyl Brif Weinidog,

Ysgrifennwn atoch ynghylch y sefyllfa ofnadwy ym Mhalesteina ac i ofyn i Lywodraeth Cymru ddatgan cefnogaeth i gadoediad.

Mae mwy na 9,000 o Balesteiniaid wedi'u lladd, gan gynnwys 3,500 o blant. Nid yw ysbytai yn gallu darparu gofal hanfodol; mae diffyg mynediad at ddŵr glân, meddyginiaethau a bwyd ac mae miloedd wedi'u hanafu, wedi colli eu cartrefi ac wedi gweld eu teuluoedd yn cael eu lladd. Mae hwn yn drychineb dyngarol.

Mae'n drueni mawr ar y mater hwn fod Cymru'n cael ei chynrychioli gan Lywodraeth y DU sydd wedi rhoi ei chefnogaeth 'ddigamsyniol' i Lywodraeth Israel ac wedi gwrthod cefnogi cynigion yn galw am gadoediad yn y Cenhedloedd Unedig. Nid ydym am i'r camau hynny gynrychioli cyfraniad Cymru ar y foment hollbwysig hon. Ni fydd hanes yn edrych yn ôl yn garedig ar y rhai a gefnogodd y gyflafan hon, na'r rhai a safodd o'r neilltu.

Nodwn eich cefnogaeth i 'saib dyngarol', ond nid yw 'saib' yn ddigon. Mae toriad yn y bomio, dim ond i fwy o sifiliaid farw unwaith y bydd yn ailddechrau, yn annigonol. Mae angen cadoediad ar fyrder, a dyma'r unig ffordd i atal rhagor o farwolaeth a dechrau cymryd camau tuag at drafodaethau dros heddwch. Cefnogir cadoediad gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, llywodraethau ar draws y byd ac asiantaethau gan gynnwys UNICEF, Achub y Plant, Amnest Rhyngwladol ac Oxfam, yn ogystal â 76% o bobl Prydain.

**Gofynnwn ichi gyfarwyddo'ch cyd-Weinidogion ac Aelodau o'r Senedd i bleidleisio o blaid cynnig NDM8391**, a fydd yn cael ei drafod yn y Senedd ar 08/11/2023 a'ch bod yn cefnogi'r galwadau hyn yn gyhoeddus ac yn ddiamwys:

- **Cadoediad ar unwaith** i bob parti a diwedd ar y gwarchae ar Gaza.
- **Agor llwybrau brys ar gyfer cymorth dyngarol** i mewn i Gaza ac adfer pŵer, dŵr, bwyd digonol a chyflenwadau meddygol.
- **Ymchwiliad i droseddau rhyfel** sydd wedi eu cyflawni yn ystod y gwrthdaro.
- **Ymrwymiad i drafodaethau heddwch** a'r defnydd o dactegau di-drais gan y gymuned ryngwladol megis boicotio, dad-fuddsoddi a sancsiynau ar Lywodraeth Israel.
- **Diwedd ar feddiannaeth anghyfreithlon tiriogaethau Palestina a gorthrwm y Palesteiniaid**, gyda hawl i ddychwelyd i ffoaduriaid ac ymrwymiad i gyfiawnder a heddwch i holl ddinasyddion Israel a Phalestina.

Mae Prif Weinidog yr Alban, arweinydd Llafur yr Alban a Meiri Llundain a Manceinion wedi galw am gadoediad, yn ogystal ag ASau Cymru a San Steffan o bob plaid, a gwleidyddion etholedig ledled y byd. Byddai'n drueni pe na bai ein Prif Weinidog, arweinydd Cenedl Noddfa sydd â thraddodiad balch o ryngwladoliaeth, yn ymuno â'r galwadau hynny.

Efallai nad oes gan Gymru bwerau dros faterion rhyngwladol ond mae gennym lais. Mae gennych chi ddyletswydd ddemocrataidd i gynrychioli'r mwyafrif o bobl yng Nghymru sydd am weld cadoediad, yn ogystal â dyletswydd foesol i ddefnyddio'ch safle i ymuno â'r corws rhyngwladol cynyddol dros heddwch.

Yr eiddoch yn gywir,

1. Balchder Traws Caerdydd
2. CADNO (Cymdeithas Atal Distryw Niwcliar Oesol)
3. Cangen Cymunedol Gogledd Orllewin Cymru Unite
4. Canolfan Diwylliant Mwslimaidd Grangetown
5. Clymblaid Atal y Rhyfel Caerdydd
6. Côr Cochion
7. Côr Gobaith
8. CND Cymru
9. Cylchgrawn Codi Pais
10. Cylch Llenyddol Maldwyn
11. Cymdeithas Niclas y Glais
12. Cymdeithas yr Iaith
13. Cymdeithas y Cymod
14. Cynghrair Comiwnyddion Ifanc Cymru
15. Cynghrair Hil Cymru
16. Cynulliad y Bobl Caerdydd
17. Cyngor Mwslimaidd Cymru
18. Desolation Radio
19. Eglwys Bresbyteraidd Cymru
20. gentle/radical
21. Glitter Cymru
22. Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn
23. Gwasg LUMIN
24. Gwreiddiau Llafur Cymru
25. Heddwch ar Waith
26. Heddwch ar Waith Cangen Aberystwyth
27. Heddwch Nain/Mam-gu
28. Mae Bywydau Du o Bwys Caerdydd a'r Fro
29. Manifesto Queer i Gymru

- 30.Melin Drafod
- 31.Merched y Wawr
- 32.PAWB (Pobl Atal Wylfa B)
- 33.Planet: the Welsh Internationalist magazine
- 34.Plaid Ifanc
- 35.Plaid Werdd Cymru
- 36.Pwyllgor Trefnu Gwreiddiau Llafur Cymru Caerdydd a'r Fro
- 37.Seren y Bore
- 38.Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru (EYST)
- 39.Trans Aid Cymru
- 40.Undod
- 41.Undod Chwith Cymru
- 42.Unite Cambria
- 43.Urdd Gobaith Cymru
- 44.Voice.wales
- 45.Welsh Underground Network
- 46.Y Blaid Gomiwnyddol Gymreig
- 47.Ymgyrch Cydsefyll â Phalesteina Caerdydd
- 48.Ymgyrch Cydsefyll â Phalesteina Rhondda Cynon Taf